

---

# Canllawiau Gorfodi Rheoleiddio ar gyfer ymchwiliadau

Canllawiau drafft ar gyfer ymgynghori

---

# Cynnwys

---

## Adran

1. Trosolwg	1
2. Cyflwyniad	2

# 1. Trosolwg

- 1.1 Ofcom yw'r rheoleiddiwr annibynnol, yr awdurdod ar gyfer cystadleuaeth a'r gorfodwr dynodedig ar ran cyfraith defnyddwyr ar gyfer diwydiannau cyfathrebiadau'r DU. Yn y rôl hon, efallai y bydd angen i ni gymryd camau gorfodi er budd dinasyddion a defnyddwyr, a lle bo'n briodol i hyrwyddo cystadleuaethau.
- 1.2 Mae gennym gyfres o egwyddorion rheoleiddio cyffredinol i arwain ein ffordd o weithredu, gan gynnwys ein bod:
  - a) yn gweithredu gyda gogwydd yn erbyn ymyrryd, ond â pharodrwydd i ymyrryd yn gadarn, yn ddiymdroi ac yn effeithiol pan fydd angen;
  - b) yn ceisio sicrhau y bydd ein hymyriadau'n seiliedig ar dystiolaeth, yn gymesur, yn gyson, yn atebol ac yn dryloyw o ran ystyriaeth ac o ran canlyniadau; ac
  - c) bob amser yn ceisio defnyddio'r mecanweithiau rheoleiddio lleiaf ymwithiol er mwyn cyflawni ein hamcanion polisi.
- 1.3 Mae'r Canllawiau Gorfodi Rheoleiddio hyn yn nodi sut bydd Ofcom yn mynd ati i orfodi gofynion rheoleiddio sy'n ymwneud â gwasanaethau a rhwydweithiau cyfathrebiadau electronig, gwasanaethau hanfodol yn yr is-sector seilwaith digidol, gwasanaethau post a deddfwriaeth diogelu defnyddwyr.

## 2. Cyflwyniad

### Beth mae'r canllawiau hyn yn ei gynnwys?

- 2.1 Mae'r canllawiau hyn ('Canllawiau Gorfodi Rheoleiddio') yn nodi sut bydd Ofcom yn delio â gorfodi mewn perthynas â gofynion cydymffurfio a rheoleiddio (rydym yn galw'r rhain yn 'ymchwiliadau rheoleiddio') a deddfwriaeth diogelu defnyddwyr ('ymchwiliadau defnyddwyr'). Gyda'i gilydd, cyfeirir at y rhain fel 'ymchwiliadau'. Maent yn berthnasol i'n holl brosesau gorfodi, ac eithrio lle nodir fel arall neu lle mae gennym reswm da dros wroddi wrthynt.
- 2.2 Dyma restr nad yw'n gyflawn o rai o'r ymchwiliadau rheoleiddio y mae'r Canllawiau Gorfodi Rheoleiddio hyn yn berthnasol iddynt:<sup>1</sup>
- a) SMP, USO, Amodau Cyffredinol ac amodau a chyfarwyddiadau rheoleiddio eraill sy'n berthnasol i ddarparwyr cyfathrebiadau, Atodiad 1;
  - b) SMP, USO ac amodau a chyfarwyddiadau rheoleiddio eraill sy'n berthnasol i gwmnïau post, Atodiad 2;
  - c) Diogelwch Rhwydweithiau, Atodiad 3, sy'n cynnwys:
    - i) Cydymffurfio â gofynion a osodir gan neu o dan adrannau 105A i 105D, 105I i 105K, 105L(6), (7)(c) ac (8), 105N(2)(a) a 105O Deddf Cyfathrebiadau 2003 ('Deddf Cyfathrebiadau'), fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Telegyfathrebiadau (Diogelwch) 2021, sy'n ymwneud â diogelwch a chadernid rhwydweithiau a gwasanaethau cyfathrebiadau electronig cyhoeddus; a
    - ii) Cydymffurfio â'r gofynion ynghylch Gweithredwyr Gwasanaethau Hanfodol a nodir yn Rheoliadau Systemau Gwybodaeth a Rhwydwaith 2018;
  - d) Llwyfannau Rhannu Fideos ('VSP'), Atodiad 4;
  - e) Cydymffurfio â gofynion gosod cyfyngiad ar filiau ffonau symudol o dan adran 124S Deddf Cyfathrebiadau, Atodiad 5;
  - f) Camdefnyddio parhaus ar wasanaethau neu rwydweithiau cyfathrebiadau electronig, Atodiad 6;
  - g) Rheoliadau Crwydro Symudol, Atodiad 7;
  - h) Niwtraliaeth y rhyngwyd, cydymffurfio â'r Rheoliadau'r Rhyngwyd Agored, Atodiad 8;

---

<sup>1</sup> Dyma restr anghyflawn a gall Ofcom gynnal ymchwiliadau rheoleiddiol o dan ddarpariaethau eraill. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o'r ymchwiliadau rheoleiddiol yn y rhestr hon yn cael eu cynnal o dan adran 96A – 96C. Gall Ofcom hefyd orfodi o dan y broses a nodir yn adrannau 94 – 96 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau. Mae hyn yn berthnasol yn bennaf i amodau offer SMP a Gwasanaethau Talu dros y Ffôn.

- i) Cydymffurfio â'r cyfyngiadau neu'r amodau sy'n berthnasol i gwmnïau sydd â phwerau o dan y Cod Cyfathrebiadau Electronig, Atodiad 9; a
  - j) Trwyddedau radiogyfathrebu, Cydymffurfio â Deddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006 Atodiad 10.
  - k) Cyfarwyddiadau i rwystro mynediad at rif ffôn ar sail twyll neu gamddefnydd, Atodiad 11;
- 2.3 Mae'r Canllawiau Gorfodi Rheoleiddio hyn hefyd yn berthnasol i orfodi methiannau i ymateb yn briodol i geisiadau statudol am wybodaeth,<sup>2</sup> fel:
- a) methu ag ymateb o gwbl i gais statudol am wybodaeth;
  - b) methu ag ymateb erbyn y dyddiad cau a bennwyd gan Ofcom;
  - c) darparu ymateb anghyflawn, e.e. methu ag ateb un neu fwy o gwestiynau neu ddarparu'r holl wybodaeth y gofynnwyd amdani gan gwestiwn penodol; a
  - d) darparu ymateb anghywir, e.e. darparu gwybodaeth sydd wedi'i phrofi i fod yn anghywir ar sail gwybodaeth sydd wedi dod i law neu wybodaeth rydym wedi cael gwybod amdani.
- 2.4 Mae'r Canllawiau Gorfodi Rheoleiddio hyn hefyd yn berthnasol i orfodi deddfwriaeth diogelu defnyddwyr (Atodiad 12) sy'n cynnwys:
- a) gofynion sy'n ymwneud â thelerau anghyfreithlon neu annheg mewn contractau defnyddwyr o dan Ddeddf Hawliau Defnyddwyr 2015 (y 'Ddeddf Hawliau Defnyddwyr'); a
  - b) deddfwriaeth arall sy'n ymwneud â diogelu defnyddwyr y mae gan Ofcom bwerau cydredol gyda rheoleiddwyr eraill ohoni, a hynny o dan Ran 8 o Ddeddf Menter 2002 (y 'Ddeddf Menter'), gan gynnwys:
    - i) Rheoliadau Diogelu Defnyddiwr rhag Masnachu Annheg 2008; a,
    - ii) Rheoliadau Contractau Defnyddwyr (Gwybodaeth, Canslo a Ffioedd Ychwanegol) 2013.
- 2.5 **Nid yw'r** Canllawiau Gorfodi Rheoleiddio hyn yn berthnasol yn yr amgylchiadau canlynol, ac ymdrinnir â'r rhain yn unol â phrosesau a gweithdrefnau gwahanol:
- a) cwynion gan ddefnyddwyr unigol am wasanaethau cyfathrebu, gan gynnwys VSPs, neu wasanaethau post;<sup>3</sup>

---

<sup>2</sup> Ceisiadau statudol am wybodaeth yw'r ffordd y gall Ofcom fynnu bod rhai pobl yn rhoi gwybodaeth sy'n angenrheidiol i ni er mwyn cyflawni ein swyddogaethau. Mae Ofcom yn cyhoeddi ceisiadau am wybodaeth gan ddefnyddio ystod o wahanol bwerau statudol. Byddwn yn gorfodi'r gwahanol fathau hyn o geisiadau am wybodaeth yn unol â'r Canllawiau Gorfodi Rheoleiddiol a'r ddeddfwriaeth berthnasol.

<sup>3</sup> Os ydych yn ddefnyddiwr, yn wylwr neu'n wrandäwr ac am gyflwyno cais i Ofcom i gwyno ynghylch darparwr cyfathrebiadau, darlledwr neu ddarparwr gwasanaethau, ewch i'n gwefan i gael cyngor:

<https://www.ofcom.org.uk/cymru/complaints>

- b) ymchwiliadau o dan Ddeddf Cystadleuaeth 1998 (y 'Ddeddf Cystadleuaeth');<sup>4</sup>
- c) gorfodi mewn perthynas â thrwyddedau darlledu (gan gynnwys cydymffurfio ag amodau mewn trwyddedau Deddf Darlledu sy'n ymwneud â chynnwys darlledu neu gystadleuaeth deg ac effeithiol) a darparwyr gwasanaethau rhaglenni ar-alw;<sup>5</sup>
- d) gorfodi gofynion y BBC;<sup>6</sup>
- e) gorfodi ceisiadau statudol am wybodaeth a wneir o dan Ddeddf Cystadleuaeth<sup>7</sup> neu o dan ddeddfwriaeth sy'n rhoi swyddogaeth orfodi i'r llysoedd yn unig <sup>8</sup> yn hytrach nag i Ofcom;
- f) sut bydd Ofcom yn datrys anghydfodau o dan y Ddeddf Cyfathrebiadau, Atodlen 3 Deddf Gwasanaethau Post 2011 ('y Ddeddf Gwasanaethau Post')<sup>9</sup> neu o dan Reoliadau Cyfathrebiadau (Mynediad i Seilwaith) 2016<sup>10</sup>;
- g) gorfodi troseddol mewn perthynas â thorri Deddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006;<sup>11</sup> a
- h) cydymffurfio ag ymrwymïadau a roddwyd i Ofcom o dan Ran 4 y Ddeddf Menter.

## Statws y Canllawiau Gorfodi Rheoleiddio hyn

2.6 Daw'r Canllawiau Gorfodi Rheoleiddio hyn i rym o xxx 2022 ymlaen. Maen nhw'n nodi dull gweithredu cyffredinol Ofcom o orfodi yn y meysydd sy'n cael sylw yn y Canllawiau Gorfodi Rheoleiddiol hyn, ac maen nhw wedi cael eu llunio i fod yn hyblyg. Pan fyddwn yn gwyrto

---

<sup>4</sup> Canllawiau gorfodi ar gyfer ymchwiliadau'r Ddeddf Cystadleuaeth: <https://www.ofcom.org.uk/cymru/about-ofcom/policies-and-guidelines>

<sup>5</sup> Mae canllawiau ar weithdrefnau Ofcom ar gyfer darlledu a gorfodi gwasanaethau rhaglenni ar-alw, yn ogystal â gweithdrefnau ar wahân ar gyfer ymchwilio i achosion o dorri amodau sy'n ymwneud â chystadleuaeth yn nhrwyddedau'r Ddeddf Darlledu ar gael yma: <https://www.ofcom.org.uk/cymru/tv-radio-and-on-demand/information-for-industry/guidance/procedures>.

<sup>6</sup> Mae canllawiau ar weithdrefnau Ofcom ar gyfer gorfodi gofynion y BBC ar gael yma: <https://www.ofcom.org.uk/cymru/tv-radio-and-on-demand/information-for-industry/guidance/procedures>. Yr eithriad i hyn yw cymryd camau gorfodi o dan adran 198ZA o'r Ddeddf Cyfathrebiadau yng nghyswllt pobl ar wahân i'r BBC yn torri'r gofynion casglu gwybodaeth, a roddir ar Ofcom o dan Siarter a Chytundeb y BBC, mewn perthynas â swyddogaethau'r BBC; ac mae'r Canllawiau Gorfodi hyn yn mynd i'r afael â hyn.

<sup>7</sup> Fel y trafodwyd yng nghanllawiau gorfodi Ofcom ar gyfer ymchwiliadau'r Ddeddf Cystadleuaeth, sydd ar gael yma: <https://www.ofcom.org.uk/cymru/about-ofcom/policies-and-guidelines>.

<sup>8</sup> Er enghraifft, o dan Ddeddf Hawliau Defnyddwyr 2015 a Deddf Menter 2002.

<sup>9</sup> Edrychwch ar ein canllawiau ar Orfodi Datrys Anghydfod: [https://www.ofcom.org.uk/\\_data/assets/pdf\\_file/0020/71624/guidelines.pdf](https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0020/71624/guidelines.pdf) a'n canllawiau atodol ar anghydfodau post: [https://www.ofcom.org.uk/\\_data/assets/pdf\\_file/0022/66505/dispute\\_resolution\\_april2012.pdf](https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0022/66505/dispute_resolution_april2012.pdf).

<sup>10</sup> Gweler ein Harweiniad o dan Reoliadau Cyfathrebiadau (Mynediad i Seilwaith) 2016: [https://www.ofcom.org.uk/\\_data/assets/pdf\\_file/0025/95191/Guidance-under-the-Communications-Access-to-Infrastructure-Regulations-2016.pdf](https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0025/95191/Guidance-under-the-Communications-Access-to-Infrastructure-Regulations-2016.pdf).

<sup>11</sup> Gall Ofcom gymryd camau gorfodi ar wahân ar gyfer troseddau o dan Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006 o dan adrannau 8, 11, 35, 36, 37, 38, 46, 47, 48, 51, 53, 58, 60, 66, 68 Rhan 5, 98 a 100. Mae rhagor o wybodaeth am ein pwerau gorfodi sbectrwm a throseddau sbectrwm ar gael ar ein [gwefan](#).

oddi wrth y dull a nodir yn y ddogfen hon, byddwn yn egluro ein rhesymau dros wneud hynny.

- 2.7 Nid yw'r Canllawiau Gorfodi Rheoleiddio hyn yn cymryd lle unrhyw reoliad neu gyfraith ac nid yw'n gyngor cyfreithiol.
- 2.8 Er i ni geisio amlinellu'r mathau o brosesau gorfodi sy'n dod o dan y Canllawiau Gorfodi Rheoleiddio hyn, efallai y bydd pwerau a chyfrifoldebau Ofcom yn newid dros amser. Petai Ofcom yn ennill pwerau gorfodi newydd, mae'n debyg y byddem yn defnyddio'r broses sy'n cydweddu orau o ran y fframwaith statudol. Gan ddibynnu ar natur unrhyw bwerau gorfodi newydd, byddem hefyd yn ystyried a oes angen adolygu a/neu ddiwygio'r Canllawiau Gorfodi Rheoleiddio hyn.